

Cyngor Tref Caergybi

Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023

Cynghorwyr yn bresennol: Y Cynghorwyr Ann Kennedy, Richard Parry, Cadi Evanson, Adrienne Edwards, Beryl Warner, Howard Browes, Hywel Williams, Alan Williams

Wrth law - Robert Henderson (Clerc y Dref/Swyddog Cyllid)
Alex Williams - Clerc-deipydd

1) Ethol Cadeirydd i'r is-bwyllgor am y flwyddyn 2023/24.

Cynigiwyd mai'r Cynghorydd Richard Parry fyddai cadeirydd yr is-bwyllgor am y flwyddyn 2023/24 ac eiliwyd hynny. **Cofnod Rhif 5575/2023**

2. Oes Aelod neu Gynghorydd yn recordio'r cyfarfod hwn?

Oes. Mae Alex, y Clerc-deipydd yn cofnodi'r cyfarfod. **Cofnod Rhif 5576/2023**

3. Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau gan unrhyw Gynghorydd. **Cofnod Rhif 5577/2023**

4. Ni dderbyniwyd Datganiad o Ddiddordeb gan unrhyw Gynghorydd. **Cofnod Rhif 5578/2023**

5. Ethol Dirprwy gadeirydd i'r is-bwyllgor am y flwyddyn 2023/24.

Cynigiwyd mai'r Cynghorydd Adrienne Edwards fyddai dirprwy gadeirydd yr is-bwyllgor am y flwyddyn 2023/24 ac eiliwyd hynny. **Cofnod Rhif 5579/2023**

6. Cynigiwyd bod y cofnodion yn rhai cywir ac eiliwyd hynny. **Cofnod Rhif 5580/2023**

7. Trafododd y Clerc swydd y Swyddog Twristiaeth a Grantiau gyda'r is-bwyllgor. Byddai'r cyllid yn parhau gyda'r cytundeb 24 mis a drefnwyd yn wreiddiol. Ni chafwyd unrhyw lwyddiant gyda chyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac roedd y Clerc, bellach, yn ceisio arian o wahanol grantiau gyda chymorth Cyngor Sir Ynys Môn. Cafwyd trafodaeth i ddefnyddio arian o gronfeydd wrth gefn y Cyngor Tref i dalu am y swydd pe byddid yn parhau i fod yn aflwyddiannus wrth geisio am arian. Byddai Clerc y Dref yn mynd â'r penderfyniad i'r is-bwyllgor staffio i gael cymeradwyaeth i ymestyn y contract tri mis cyfredol i bedwar mis ar hugain. Byddid, hefyd, yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i'r is-bwyllgor eiddo a chyllid o hyn ymlaen ynghylch unrhyw drefniadau mewn perthynas â'r swydd. **Cofnod Rhif 5581/2023**

Holyhead Town Council

Finance and Property Sub Committee meeting held on the 22nd of June 2023.

Councillors Present: Cllr Ann Kennedy, Cllr Richard Parry, Cllr Cadi Evanson, Cllr Adrienne Edwards, Cllr Beryl Warner, Cllr Howard Browes, Cllr Hywel Williams, Cllr Alan Williams

In Attendance: Robert Henderson (Town Clerk/Financial Officer)

Alex Williams (Clerk Typist)

1. To elect a Chair for the committee for the year 2023/24.

It was proposed, first and seconded that Cllr Richard Parry would be chair for the committee for the year 2023/24. **Minute No.5575/2023**

2. Is any Councillor or member making a recording of this meeting?

Alex Williams, Clerk typist is taking minute of the meeting. **Minute No.5576/2023**

3. No apologies of absence were received. **Minute No. 5577/2023**

4. No Declaration of interest was made by any Councillor. **Minute No.5578/2023**

5. To elect a Deputy Chair for the Committee for the year 2023/24.

It was proposed, first and seconded that Cllr Adrienne Edwards would be vice chair for the year 2023/24. **Minute No. 5579/2023**

6. The previous minutes were proposed, first and seconded to be of true record. **Minute No. 5580/2023**

7. The clerk discussed with the committee regarding the Tourism and Grants Officer role regarding the funding to continue with the 24-month contract that was originally in place. The Clerk will take the discussion to the staffing committee for ratification to extend the current three-month contract to twenty-four months for ratification keep the property and finance committee up to date with any future arrangements regarding the role. **Minute No. 5581/2023**